
TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

# Uwchgylchu Dodrefn a Chrefft



**Yn gryno**

Awydd bod yn greadigol gyda phrosiect uwchgylchu?

Mae'r cwrs hwn yn cwmpasu hanfodion paentio dodrefn er mwyn i chi allu ymgolli yn eich prosiectau uwchgylchu yn hyderus a rhoi bywyd newydd i'ch dodrefn. Mae wedi'i ddylunio ar gyfer dechreuwyr llwyr, er mwyn i chi feithrin dealltwriaeth well o hanfodion uwchgylchu dodrefn.

**Mae'r cwrs hwn ar gyfer...**

...Unrhyw un sydd eisiau bod yn greadigol gydag uwchgylchu dodrefn.

...Y rhai sydd eisiau gwella eu sgiliau creadigol wrth uwchgylchu dodrefn.

....Pobl sydd eisiau dysgu sgiliau a thechnegau newydd sy'n eu galluogi i roi bywyd newydd i ddodrefn.

....Unigolion sydd eisiau helpu'r amgylchedd drwy achub dodrefn a fyddai fel arall yn mynd i

safleoedd tirlenwi.

**Cynnwys y cwrs**

Yn ystod y cwrs rhan amser hwn, byddwch yn cwmpasu sawl agwedd ar uwchgylchu dodrefn, megis:

Paratoi, glanhau, a sandio
Paentio a thechnegau paentio gwahanol
Staenio a chwyro
Trosglwyddo a decoupage

Byddwch hefyd yn cwmpasu'r defnydd o amrywiaeth o offer a chynhyrchion i gwblhau eich prosiectau uwchgylchu, gan gynnwys peiriannau sandio, brwshys paent, paent, gludiau, cwyr, staeniau a farnisiau clir a lliw.

**Gofynion Mynediad**

Nid oes unrhyw ofynion mynediad ffurfiol ar gyfer y cwrs hwn.

Bydd angen i chi fynychu'n rheolaidd a bod yn frwdfrydig am uwchgylchu dodrefn.

**Gwybodaeth Ychwanegol**

Mae'r Ysgol Celfyddydau Creadigol yn cynnig casgliad o gyrsiau gydol y flwyddyn.

Y cyrsiau rydym yn eu cynnig ar hyn o bryd yw:

Tecstilau
Cerameg
Gwneud Printiau
Ffotograffiaeth
Argraffu 3D
Ymarfer Llesiant Creadigol a'r Celfyddydau
Sgiliau DJ gan ddefnyddio Ableton Live
Y Celfyddydau Perfformio
Canu ar gyfer Pleser
Ysgrifennu Creadigol

# TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Uwchgylchu Dodrefn a Chrefft
Gwneud Gemwaith
Lluniadu Digidol gan ddefnyddio Procreate
Lansio Menter/Busnes Creadigol